# Mae'r cyhoeddiad hwn wedi cael ei dynnu.

Nid yw'r cyhoeddiad hwn bellach yn gyfredol.

Adran Gwaith a Phensiynau

# Amserlen ar gyfer Taliad Annibyniaeth Personol (PIP)

**Diweddarwyd: Mis Awst 2015**

## Mis Ebrill 2013 – Taliad Annibyniaeth Personol (PIP) yn cael ei gyflwyno

Dechreuodd yr Adran Gwaith a Phensiynau gymryd ceisiadau newydd am Daliad Annibyniaeth Personol oddi wrth bobl 16 i 64 oedd yn byw yn y Gogledd Orllewin a rhan o Ogledd Ddwyrain Lloegr yn unig. O 10 Mehefin 2013, estynnwyd hyn i holl rannau eraill o Brydain Fawr. O'r dyddiad hwn, nid oedd yr Adran Gwaith a Phensiynau'n derbyn ceisiadau newydd am Lwfans Byw i'r Anabl gan bobl 16 i 64 oed.

## Mis Hydref 2013 - Rhai hawlwyr Lwfans Byw i'r Anabl presennol yn cael gwahoddiad i wneud cais am Daliad Annibyniaeth Personol

Dechreuodd yr Adran Gwaith a Phensiynau wahodd rhai hawlwyr Lwfans Byw i'r Anabl presennol i wneud cais am Daliad Annibyniaeth Personol. Mae hyn wedi digwydd yn raddol yn ôl y cod post roedd yr hawlwyr yn byw ynddo.

Erbyn mis Gorffennaf 2015 roedd holl ardaloedd cod post ym Mhrydain Fawr wedi cael eu cynnwys.

Mae hyn yn golygu ein bod yn rhoi gwahoddiad unigolion i wneud cais am Daliad Annibyniaeth bersonol pan

- rydym yn derbyn gwybodaeth ynglŷn â newid yn eu hanghenion gofal neu symudedd
- mae eu dyfarniad Lwfans Byw i'r Anabl cyfnod penodol yn mynd i ddod i ben
- mae plant yn troi yn 16 oed

Gall hawlwyr 16-64 oed Lwfans Byw i'r Anabl presennol sydd am wneud cais am Daliad Annibyniaeth Personol hefyd wneud hynny.

## Mis Gorffennaf 2015 – mwy o hawlwyr Lwfans Byw i'r Anabl presennol yn cael gwahoddiad i wneud cais am Daliad Annibyniaeth Personol

Dechreuodd yr Adran Gwaith a Phensiynau wahodd rhai hawlwyr Lwfans Byw i'r Anabl presennol i wneud cais am Daliad Annibyniaeth Personol os oes

ISBN: 978-1-78153-675-9 © Hawlfraint y Goron 2013
Wedi ei gyhoeddi gan yr Adran Gwaith a Phensiynau

Mis Gorffennaf 2015
gov.uk/dwp/pip-toolkit

ganddynt ddyfarniad hir dymor neu amhenodol. Mae hyn yn golygu os yw eu Lwfans Byw i’r Anabl yn dod i ben ar ôl mis Medi 2017 neu os nad oes gan eu dyfarniad ddyddiad dod i ben.

Bydd hyn yn digwydd yn raddol dros gyfnod o tua dwy flynedd yn dechrau gyda phobl yn yr ardaloedd cod post:

**Blackburn (BB); Bolton (BL); Colchester (CO), Derby (DE); Lerpwl (L); Leicester (LE); Manceinion (M); Norwich (NR); Oldham (OL); Preston (PR); Stoke on Trent (ST); Warrington (WA) and Wigan (WN).**

O fis Medi bydd yr ardaloedd hyn yn cael eu hestyn i gynnwys

**Caerfaddon (BA); Blackpool (FY); Bromley (BR); Bournemouth (BH); Bristol (BS); Caergrawnt (CB); Caergaint (CT); Caerdydd (CF); Chelmsford (CM); Crewe (CW); Dartford (DA); Dorchester (DT); Durham (DH); Gloucester (GL); Halifax (HX); Huddersfield (HD); Lancaster (LA); Luton (LU); Plymouth (PL); Portsmouth (PO); Reading (RG); Romford (RM); Salisbury (SP); Southend on Sea (SS); Southampton (SO); Stockport (SK); Taunton (TA); Torquay (TQ); Truro (TR)**

Ni chysylltir â phawb yn yr ardaloedd cod post hyn i wneud cais am Daliad Annibyniaeth Personol yn syth. Gellir cysylltu â hawlwyr ar unrhyw adeg rhwng 13 Gorffennaf 2015 a 30 Medi 2017.

Bydd hawlwyr Lwfans Byw i’r Anabl presennol yn parhau i gael Lwfans Byw i’r Anabl hyd nes y bydd yr Adran Gwaith a Phensiynau’n ysgrifennu atynt i roi gwybod iddynt ba bryd y bydd yn dod i ben a beth i wneud nesaf.